

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Gwynfryn, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 09 Gorffennaf 2024

Dyddiad cyhoeddi: 09 Hydref 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Gwynfryn, Bangor ar 9 Gorffennaf 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 36 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Gwynfryn yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion yn ddwyieithog mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol a chroesawgar
- Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau dynodedig i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Gwynfryn yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu.

Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau clir ac effeithiol ar waith i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio.

Roedd aelodau'r tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ni ddylai sincipiau golchi dwylo'r ddeintyddfa gynnwys plygiau na gorlifoedd
- Mae angen adolygu'r polisi Rheoli Meddyginiaethau
- Nid oedd asesiadau risg wedi'u cofnodi ar gyfer pob claf yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.
- Roedd y ffolder diogelu rhag ymbelydredd wedi'i chynnal yn dda
- Gweithdrefnau diogelu cadarn
- Cydymffurfiaeth lawn â gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Gwynfryn.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu'r polisi recriwtio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda iawn

- Prosesau archwilio cadarn
- Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant perthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Gwasanaeth rhagorol. Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Byddwn yn ei argymhell yn fawr.”

“Staff y ddeintyddfa a'r dderbynfa yn gyfeillgar iawn. Rwyf i a fy mhlant bob amser yn teimlo'n gyfforddus yn dod i'r ddeintyddfa.”

“Gwasanaeth rhagorol bob amser.”

“Mae pob aelod o'r staff yn effeithlon ac yn gyfeillgar iawn.”

“Tîm cyfeillgar sy'n gweithio'n galed. Bob amser yno pan fydd angen.”

“Tîm ardderchog sy'n gefnogol iawn. Mae staff y dderbynfa yn gaffaeliad i'r ddeintyddfa.”

“Gofal a gwasanaeth perffaith. Byddem yn ei argymhell i bawb.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd rhywfaint o ddeunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Felly, roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion a allai eu helpu i ofalu am hylendid eu ceg.

Gwelsom arwyddion ‘Dim Smygu’ yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd rhestrau prisiau hefyd wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros.

Gwelsom arwyddion clir a oedd yn nodi sut i gysylltu â'r practis y tu allan i oriau mewn argyfwng.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Dywedodd pob un o'r cleifion (36/36) a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd pob un o'r cleifion (36/36) eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael. Dywedodd pob un o'r cleifion (32/32) wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn yr ystafell aros.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan ac ar ei dudalennau cyfryngau cymdeithasol, ac yn cael ei harddangos ger y brif fynedfa, yn yr ardal aros ac yn y dderbynfa.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd pob un o'r cleifion (36/36) wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth er mwyn deall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, a dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (32/33) wrthym fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn cael triniaeth.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion (32/33) yn cytuno eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau yn cael eu nodi'n glir cyn cael triniaeth. Dywedodd rhai cleifion wrthym:

“Yn gyfeillgar iawn, yn barod i helpu ac yn broffesiynol. Cefais yr holl wybodaeth roedd ei hangen arnaf. Mae'r negeseuon atgoffa dros neges destun ac e-bost yn ddefnyddiol.”

“Rhoddodd yr hylenydd a'r nyrs dawelwch meddwl i mi gan fy mod yn nerfus iawn.”

“Mae pob un o'r staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol bob amser. Rwy'n teimlo'n ddiogel iawn ac yn cael gofal da er fy mod yn arfer pryderu'n fawr ynghylch cael triniaeth ddeintyddol.”

“Rwy'n teimlo'n gyfforddus yn dod i fy apwyntiadau. Roeddwn yn arfer bod yn nerfus iawn.”

Gwelsom fod hanes meddygol y cleifion, gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion wedi cael gwybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd pob un o'r cleifion (36/36) a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (35/36) a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys ond dywedodd un claf wrthym nad oedd yn gwybod sut i wneud hynny. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y manylion cyswllt yn cael eu harddangos ger y brif fynedfa, ar wefan y practis, ar neges peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd un claf wrthym:

“Maen nhw bob amser yn gwneud eu gorau i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi. Mae ymddiriedaeth yn rhan bwysig o fod yn glaf, ac rwy'n ymddiried ynddynt. Mae angen ymateb yn gyflym i argyfyngau pan fydd angen triniaeth.”

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd taflen wybodaeth i gleifion a pholisi cwynion ar waith yn y practis. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth ar gael yn

Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym y gellid trefnu i ddarparu'r wybodaeth mewn fformatau gwahanol pe bai claf yn gofyn am hynny.

Dywedodd rhai o'r cleifion (26/36) a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith, a dywedodd gweddill y cleifion (10/36) mai Cymraeg oedd eu dewis iaith.

Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff sy'n gweithio yn y practis yn siarad Cymraeg. Gwelsom fod y staff yn cydnabod eu bod yn siarad Cymraeg drwy ddefnyddio brand Iaith Gwaith. Gwelsom hefyd fod poster Iaith Gwaith yn cael ei arddangos wrth y dderbynfa. Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy ddangos pwy sy'n siarad Cymraeg.

Dywedwyd wrthym hefyd y gallai'r staff, pe bai angen, ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion (28/36) a gwblhaodd yr holiadur fod y safle yn hygyrch, a dywedodd pedwar claf wrthym nad oeddent yn siŵr. Fodd bynnag, gwelsom fod mynediad da i'r adeilad. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anghenion symudedd gyrraedd y dderbynfa, yr ardal aros ac un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn lân iawn ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd yr allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag amrywiol asesiadau risg, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd offer deintyddol yn cael eu dihalogi yn y deintyddfeydd, ac roeddem yn fodlon bod y trefniadau sydd ar waith mor effeithiol a phriodol ag y gallent fod o ystyried nad oedd ystafell ddihalogi ar wahân.

Dangosodd y staff y broses ddihalogi a gwelsom dystysgrifau yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddihalogi. Roedd y cofnodlyfr, lle roedd y practis yn cofnodi'r prosesau dyddiol i gynnal a chadw'r cyfarpar sterileiddio, wedi'i drefnu'n dda. Fodd bynnag, gwelsom fod y sinciau golchi dwylo ym mhob deintyddfa yn cynnwys plygiau a gorlif. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig na ddylai sinciau golchi dwylo gynnwys plygiau na gorlifoedd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod plygiau'n cael eu tynnu a bod gorlifoedd yn cael eu gorchuddio neu eu selio ym mhob sinc golchi dwylo yn y deintyddfeydd.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf wedi'i hyfforddi.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys bob wythnos, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Adfywio'r DU.

Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd yn cynnwys manylion ar gyfer cyflenwi a rhoi gwrthfotigau a ddefnyddir ar gyfer mewnosodiadau neu'r cyffuriau brys. Nodwyd gennym hefyd nad oedd yn cwmpasu dadnatureiddio'r midazolam a roddir drwy'r geg cyn ei gwaredu yn y bin fferyllol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r polisi Rheoli Meddyginiaethau.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant lefel 3 ar ddiogelu ac roedd un aelod o'r staff wedi cael ei enwebu'n arweinydd diogelu. Roedd y staff yn gallu trafod y polisiâu a'r gweithdrefnau, a senarios amrywiol, â ni yn fanwl.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda'r rheolwr cofrestredig ac roeddent yn hyderus iawn y byddai'n gweithredu ynghylch unrhyw bryderon.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a / neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom gadarnhau bod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu gorffen i safon dda.

Roedd ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd yn y practis a oedd wedi'i threfnu'n dda iawn. Gwelsom fod yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd yn cael eu cwblhau o ddelweddau pelydr-X.

Gwelsom dystiolaeth fod y tîm clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd un clinigydd wedi cael un awr o'i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar ar ddiwrnod yr arolygiad fod yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystiolaeth o'r dystysgrif hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr awr a gollwyd yn cael ei chyflwyno i AGIC.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio laser deintyddol Dosbarth 4. Fodd bynnag, nid oedd y defnydd o laser deintyddol Dosbarth 4 wedi cael ei gynnwys yn y cais cofrestru gwreiddiol gan reolwr blaenorol y practis. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn a ddywedodd wrthym ar unwaith na fyddai'r laser deintyddol Dosbarth 4 yn cael ei ddefnyddio nes i gais am amrywiad gael ei gyflwyno i AGIC ac y cyfeirir ato yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion clinigol da yn cael eu cynnal, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd pob cofnod a welsom wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd asesiadau risg (5/10) bob amser yn cael eu cofnodi gan un clinigydd i ddangos bod asesiad risg o geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg wedi'i gynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg yn cael eu cofnodi ar gyfer pob claf.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r rheolwr cofrestredig a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau. Roedd y staff yn canmol y rheolwr cofrestredig yn fawr.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau.

Roedd yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad cyhoeddi a/neu adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn ac roedd cofnodion yn cael eu cadw.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y polisi recriwtio yn cwmpasu'r broses sefydlu, yr amodau cyflogaeth na'r gofynion hyfforddiant.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi recriwtio'n cael ei adolygu i gynnwys y broses sefydlu, yr amodau cyflogaeth a'r gofynion hyfforddiant.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod yr arfarniadau yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas ar gyfer eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Gwelsom fod matrices hyfforddiant ar gael yn y practis er mwyn i'r rheolwr cofrestredig allu asesu a monitro cymhwysedd.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd hon ar gael i bob claf yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Gwnaethom drafod y dull ar gyfer mynd ati i gael adborth gan gleifion. Mae'r practis yn gwneud hynny drwy anfon negeseuon testun neu negeseuon e-bost at gleifion ar ddiwedd eu triniaeth. Gall cleifion hefyd roi adborth ar y cyfryngau cymdeithasol ac wyneb yn wyneb yn y practis gan ddefnyddio blwch sylwadau yn yr ystafell aros. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol a'u harddangos yn yr ystafell aros a'u cyhoeddi ar wefan y practis i'r cleifion eu gweld.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn amlwg iawn bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod proses archwilio gadarn ar waith yn y practis. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o archwiliadau amrywiol a chynlluniau gweithredu oedd yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau pelydr-X, atal a rheoli heintiau a dihalogi (cydymffurfio â chanllawiau WHTM 01-05), cofnodion cleifion, canser y geg, rhoi'r gorau i smygu, hylendid dwylo, glanhau, iechyd a diogelwch, mynediad i bobl anabl, gwastraff clinigol ac adborth gan gleifion.

Roedd aelodau'r tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y defnydd o laser Dosbarth 4 wedi'i gynnwys yn y cais cofrestru gwreiddiol.	Ni ellir bod yn sicr bod y cleifion yn cael eu diogelu rhag niwed gan nad oedd y defnydd o'r laser Dosbarth 4 wedi'i gymeradwyo gan AGIC.	Gwnaethom uwchgyfeirio'r pryder at y rheolwr cofrestredig yn ystod ein hymweliad.	Rhoddodd y rheolwr cofrestredig y gorau ar unwaith <ul style="list-style-type: none"><li data-bbox="1469 772 1912 847">• i ddefnyddio'r peiriant laser Dosbarth 4<li data-bbox="1469 906 2007 978">• a chyflwynodd gais am amrywiad i AGIC.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gwynfryn

Dyddiad yr arolygiad: 9 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gwynfryn

Dyddiad yr arolygiad: 9 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni ddylai sinciau golchi dwylo gynnwys plygiau na gorlifoedd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod plygiau'n cael eu tynnu a bod gorlifoedd yn cael eu gorchuddio neu eu selio ym mhob sinc golchi dwylo yn y deintyddfeydd.	WHTM 01-05	Cafodd y plwg ei dynnu ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad. Cysylltwyd â'r plymwr i orchuddio / selio gorlifoedd.	Rheolwr y Practis	Cafodd y plwg ei dynnu ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad.
2. Roedd angen adolygu'r polisi Rheoli • Meddyginiaethau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r polisi Rheoli Meddyginiaethau i gynnwys cyflenwi a rhoi gwrthfotigau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8	Pob aelod o'r tîm i adolygu a thrafod a chadarnhau'r polisi Rheoli Meddyginiaethau.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau.
3. Un awr o dystysgrif hyfforddiant cymorth ymbelydredd ïoneiddio ar goll ar gyfer un clinigydd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystiolaeth o'r dystysgrif hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio ar	IR(ME)R 2017	Y dystysgrif i gael ei chyflwyno i AGIC.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau.

		gyfer yr awr a gollwyd yn cael ei chyflwyno i AGIC.				
4	Nid oedd un clinigydd wedi cofnodi • asesiadau risg (5/10) yng nghofnodion y cleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg yn seiliedig ar geudodau, <i>perio</i> , traul dannedd a chanser y geg yn cael eu cofnodi ar gyfer pob claf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 20	Cynhaliwyd cyfarfod â'r clinigwyr. Templedi asesu risg i gleifion newydd i gael eu drafftio, eu hadolygu a'u defnyddio.	Clinigwyr unigol / Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau.
5	Mae angen adolygu'r polisi recriwtio. •	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi recriwtio'n cwmpasu'r broses sefydlu, yr amodau cyflogaeth a'r gofynion hyfforddiant.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8	Adolygwyd y polisi recriwtio.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rheolwr Cofrestredig y Practis

Swydd: Rheolwr Cofrestredig y Practis

Dyddiad: 15/08/2024